# Hysbysiad Preifatrwydd Grŵp Rhanddeiliaid

### Enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i warchod hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

### Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â hwy trwy dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

### Pa wybodaeth fyddwn ni'n casglu amdanoch chi?

Byddwn yn casglu data personol fel enwau, teitlau swyddi, enwau sefydliadau (os yn berthnasol) a chyfeiriad/cyfeiriadau e-bost, er mwyn cynnal ein Grŵp Rhanddeiliaid.

### Sut gaiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

- i'ch hysbysu am y wybodaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â'r system trwyddedu morol
- i ofyn am dystiolaeth i gefnogi gwelliannau i'r system trwyddedu morol
- i ymgynghori â chi, fel bo angen, ar y system trwyddedu morol.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth yma gydag adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru.

### Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Byddwn yn cadw eich data personol yn unol ag Erthygl 6 GDPR - *Mae testun y data wedi cydsynio i'w data gael ei brosesu'n dilyn ymateb i wahoddiad i ymuno â'r grŵp rhanddeiliaid.*

### Pwy fydd yn derbyn eich gwybodaeth?

Bydd eich data personol ond yn cael ei ddefnyddio gan staff CNC at y diben a nodwyd a chaiff ei rannu gydag adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru i hwyluso'r un diben.

### Unrhyw drosglwyddiadau i wledydd eraill a'r trefniadau diogelu sy'n eu lle

Ni chaiff y data ei drosglwyddo'r tu allan i'r UE.

### Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich data ac yn ei ddefnyddio tan ichi ein hysbysu nad ydych am dderbyn gwybodaeth oddi wrth CNC mwyach.

Byddwn yn e-bostio pawb ar ein rhestr gyswllt yn flynyddol i roi dewis ichi eithrio eich hun o dderbyn gwybodaeth oddi wrthym.

## Beth yw eich hawliau unigol?

Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ar ac i ddanfon eich gwybodaeth bersonol. Ymwelwch â'n gwe-dudalennau Diogelu Data <https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/en-gb/our-work/corporate/data-protection-and-access-to-information> am fwy o wybodaeth ynghylch eich hawliau.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data CNC: -

**E-bostiwch – dataprotection@naturalresourceswales.gov.uk**

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

## Diogelu eich gwybodaeth

Cedwir eich data ar systemau diogel CNC.

## Sut i gwyno

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eich data personol ei brosesu gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu gyda Swyddog Diogelu Data CNC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, yna mae gennych hawl ymgeisio'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF

**www.ico.org.uk**